Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Sannan
# Ty Fry Road
# Aberbargoed
# Bargoed
# CF81 9FN

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Sannan

Lleolir Ysgol Bro Sannan ym mhentref Aberbargoed yn awdurdod lleol Caerffili. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 195 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 19 oed meithrin amser llawn. Addysgir y disgyblion mewn 7 dosbarth, gan gynnwys 4 dosbarth oed sengl a 3 oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, tua 26% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae ychydig o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sy'n dod o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 24% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2012 a phenodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar sefydlu cymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol sy'n hybu Cymraeg a Chymreictod y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r holl staff yn ymrwymo'n llwyddiannus i gefnogi disgyblion bregus ac i hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, yn teimlo'n ddiogel yno ac yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y staff yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llafar disgyblion ar bob achlysur. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar cryf ac maent yn falch iawn o'u gallu i siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen nac ysgrifennu'r disgyblion wedi datblygu i'r un safon. Yn ogystal, mae gor-arwain gan staff mewn gwersi yn cyfyngu gallu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llawn.

Mae'r cyfnod ansefydlog diweddar o ran arweinyddiaeth a newidiadau staff wedi cael effaith negyddol ar fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn parhau'n ddibynnol ar gefnogaeth allanol i weithredu ar flaenoriaethau gwella ac i fonitro cynnydd. Mae'r holl staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac eraill i weithredu ar unrhyw arweiniad ar sut i wella'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso digon pwrpasol nac aeddfed hyd yn hyn i adnabod a sicrhau gwelliant yn annibynnol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |

## Argymhellion

A1 Datblygu strwythur arweinyddiaeth cadarn er mwyn i arweinwyr ar bob lefel gymryd cyfrifoldeb am agweddau pwysig o fywyd a gwaith yr ysgol

A2 Cryfhau prosesau hunanwerthuso

A3 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau dysgu effeithiol i ddiwallu anghenion pob disgybl

A4 Gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion

A5 Gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol islaw'r ddisgwyl. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar ac yn eu defnyddio'n fedrus i gyfathrebu ag oedolion a chyfoedion ar bob achlysur. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd effeithiol tuag at eu targedau o'u mannau cychwyn.

Mae medrau llafar a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gadarn. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion gan ddilyn cyfarwyddiadau yn llwyddiannus. Mae llawer yn trafod eu gwaith yn hyderus gan esbonio'n glir yr hyn y maent yn ei wneud mewn tasgau, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 esbonio pwrpas esgyrn yn eu cyrff. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa briodol. Mae llawer yn mwynhau darllen a gwrando ar storïau, ac yn trafod y prif gymeriadau a digwyddiadau yn addas. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o'r disgyblion strategaethau digon cadarn i adeiladu geiriau anghyfarwydd, pan fo angen. O ganlyniad, mae medrau darllen y disgyblion hyn yn wan sy'n cyfyngu ar eu gallu i ddarllen er mwynhad ac i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi eu dysgu.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o eirfa ac maent yn dechrau defnyddio atalnodi sylfaenol yn eu gwaith yn rheolaidd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio geirfa ac iaith addas yn briodol i ysgrifennu at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth gofnodi ffeithiau am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn ansicr ynghylch sut i sillafu geiriau cyfarwydd ac mae llawysgrifen llawer o ddisgyblion yn flêr. Yn ogystal, prin iawn yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn ymuno â thrafodaethau yn frwdfrydig. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eraill ac yn trafod testunau amrywiol yn aeddfed. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn rhoi sylw dilys i atalnodi a dyfynodau ac yn mynegi barn addas am y stori yn eu llyfrau. Mae llawer yn gwneud defnydd effeithiol o uwch fedrau darllen, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am effaith yr Ail Ryfel Byd ar fywyd pobl Abertawe.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol. Maent yn ysgrifennu at wahanol ddibenion gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu fel storïau papur newydd ac ymson. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu ymson am Gapel Celyn a'r ddadl gyfoes am y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio geirfa ymestynnol yn eu gwaith ysgrifenedig er mwyn ei gyfoethogi. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig gan yr holl ddisgyblion ar draws y cyfnod sy'n amharu ar eu gallu i ymestyn eu medrau ymhellach.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o waith rhif, mesur, amser a phwyso. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn gynyddol hyderus mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth bwyso a mesur cynhwysion wrth goginio. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol ar draws cyfnod allweddol 2. Maent yn cymhwyso'u medrau a'u gwybodaeth o wersi mathemateg yn addas i ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm, wrth drin a thrafod data yn dilyn arbrawf ar ffrithiant neu wrth ddatrys problemau i ddarganfod eu hoedran pe baent yn byw ar blaned arall. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif ddealltwriaeth ddigon cadarn o gysyniadau pwysig er mwyn datrys problemau rhif yn llwyddiannus. Mae medrau meddwl ychydig o ddisgyblion yn datblygu'n addas ond prin yw'r dystiolaeth fod hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae medrau technoleg gywbodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n gadarn. Yn fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau sylfaenol yn addas. Yn y meithrin, er enghraifft, maent yn defnyddio'r llechen gyfrifiadurol yn briodol er mwyn gwneud llun o'u hwynebau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn meithrin medrau TGCh da ac yn defnyddio gwahanol raglenni'n llwyddiannus i gefnogi eu dysgu, er enghraifft i gofnodi hoff lysiau'r dosbarth ar ffurf graff bloc. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Maent yn cyflwyno amrywiaeth o waith ar draws y cwricwlwm yn annibynnol, er enghraifft gan ddefnyddio taenlenni i gofnodi a dadansoddi gwybodaeth am bellter rhwng dinasoedd ac i greu cronfa ddata ar ganeuon yr Ail Ryfel Byd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn cyfuno'u medrau yn llwyddiannus ac yn defnyddio mwy nag un rhaglen gyfrifiadurol i greu'r gwaith gorffenedig. Er enghraifft, maent yn defnyddio taenlenni yn effeithiol i greu fformiwlâu a dolenni cyswllt i gadw cofnod manwl o'r nwyddau sydd eu hangen wrth drefnu parti.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella

Mae Ysgol Bro Sannan yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Maent yn hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cymorth arnynt. Mae bron pob disgybl yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eraill. Er enghraifft, mae aelodau o'r 'clwb cyfeillion' a'r 'mêts grêt' yn llwyddo i gynnal cyfoedion sy'n llai hyderus yn ystod amseroedd egwyl. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac mae disgyblion o bob oedran yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet a gweithgarwch corfforol, er enghraifft trwy fynychu clybiau allgyrsiol fel y 'clwb hwb'. Yn ogystal, maent yn cyfranogi'n llwyddiannus mewn gweithgaredd ffitrwydd dyddiol 'milltir y dydd' er mwyn hybu eu ffitrwydd.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o faterion e-ddiogelwch ac yn deall sut i gadw'n ddiogel ar lein. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am eu hamgylchedd a'u cymuned leol. Mae llawer yn cyfrannu'n werthfawr at fywyd y gymuned trwy gymryd rhan mewn cyngherddau ac achlysuron eraill. Yn ogystal, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd gofalu am eraill trwy gefnogi elusennau. Mae'r disgyblion sydd ar bwyllgorau'r ysgol yn ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor eco yn gosod targedau pwrpasol ar gyfer lleihau gwastraff ac arbed ynni ac yn monitro pob

dosbarth yn ofalus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fedrus fel dinasyddion gwybodus a moesol. Mae'r disgyblion sy'n aelodau o'r pwyllgor Cymraeg yn cael dylanwad da ar fywyd a gwaith yr ysgol trwy hybu'r Gymraeg a Chymreictod y disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn falch o'u Cymreictod a'u gallu i siarad Cymraeg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a'r effaith gadarnhaol mae hyn yn ei chael ar eu cynnydd dros amser. Maent yn dangos diddordeb a boddhad yn eu gwaith ac yn dangos balchder yn yr hyn maent yn ei wneud. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau ac yn parchu safbwyntiau eraill wrth drafod. Fodd bynnag, nid yw medrau dysgu annibynnol llawer o ddisgyblion wedi datblygu'n ddigon cadarn ac nid ydynt bob tro'n cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Yn ogystal, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn canolbwyntio'n ddigonol ar dasgau ac maent yn colli diddordeb. Yn yr achosion hyn, mae ymddygiad y disgyblion hyn yn amharu ar ddysgu eraill.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae perthynas waith dda rhwng y staff a'r disgyblion yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer eu dysgu. Mae rhan fwyaf y staff yn modelu iaith yn effeithiol ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith lafar y disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y disgyblion yn y ddwy iaith. Maent yn cyflwyno ystod addas o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o gysgodfan allanol i efelychu lloches yn yr Ail Ryfel Byd i ysbrydoli disgyblion i feddwl am deimladau pobl yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf y staff yn defnyddio cwestiynau pwrpasol i herio ac ymestyn ymatebion disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd priodol o gynorthwywyr dysgu er mwyn cefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n sicrhau bod cynorthwywyr yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol ar dasgau. Yn ogystal, nid yw lleiafrif o athrawon yn amrywio'u dulliau addysgu i ymateb yn llawn i ofynion yr holl ddisgyblion ac i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf yr athrawon yn rhannu amcanion dysgu'n glir i ddisgyblion er mwyn sicrhau pwrpas i'r dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn nodi'r hyn mae disgyblion yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wella. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn briodol i'r sylwadau ac i wella'u gwaith. Mae trefn ddiweddar yr ysgol o osod targedau personol yn dechrau hybu dealltwriaeth disgyblion o'r hyn sydd angen ei wneud i gyrraedd y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio ystod addas o wersi a phrofiadau dysgu buddiol sy'n seiliedig ar themâu diddorol. Maent yn dechrau cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion lywio cyfeiriad y dysgu trwy gynnig syniadau ar ddechrau pob thema. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion fwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu. Mae athrawon yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Maent yn cynnig ystod addas o gyfleoedd iddynt ysgrifennu am wahanol bwrpas ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r gorddefnydd amhriodol o daflenni gwaith mewn llawer o ddosbarthiadau yn llesteirio gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n ymestynnol. Yn

ogystal, nid oes gan yr ysgol weithdrefnau digon cadarn ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar ddeilliannau darllen disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddatblygu a chymhwyso medrau rhifedd disgyblion mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Er bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mewn gwersi dynodedig TGCh, nid yw athrawon bob tro'n manteisio ar gyfleoedd iddynt eu cymhwyso mewn pynciau eraill.

Rhoddir pwyslais amlwg ar hybu diwylliant Cymreig a dysgu plant am hanes eu hardal leol, er enghraifft trwy ymweliadau ag Eglwys San Sannan, neu amgueddfa yn Abertawe. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'n ddinasyddion byd-eang, er enghraifft trwy ddysgu am lygredd yn ein moroedd a pherfformio mewn sioe gerdd ar y thema.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol gyda phwyslais pendant ar sicrhau gofal a chymorth i bob unigolyn. Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol o ran llythrennedd, rhifedd a lles. O ganlyniad, maent yn darparu cefnogaeth fuddiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Yn ogystal, mae'r dirprwy bennaeth a'r cydlynydd addysg arbennig yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda rhieni o'r cychwyn cyntaf er mwyn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar iawn. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth ac ymyrraeth brydlon i'r disgyblion a'u teuluoedd ac mae'n elfen gref o waith yr ysgol. Mae cynlluniau dysgu unigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion arbennig yn bwrpasol. Mae hyn yn cynnwys darparu cefnogaeth ac arweiniad buddiol er mwyn datblygu anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau cynnwys y disgyblion mewn adolygiadau blynyddol. O ganlyniad, mae gan y disgyblion hyn fwy o gyfrifoldeb dros eu targedau personol. Mae gan yr ysgol ystod o ddarpariaeth gynhwysfawr i gefnogi disgyblion sydd gydag anghenion emosiynol. Er enghraifft, trwy fynychu sesiynau ymyrraeth penodol, mae rhai disgyblion yn datblygu gwydnwch a'r gallu i ddyfalbarhau, tra bod y defnydd o sesiynau rhifedd ymarferol yn eu hysgogi i ddysgu yn llwyddiannus. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod lawn o bartneriaethau ac asiantaethau allanol i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion emosiynol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae'r staff yn hyrwyddo cwrteisi yn rheolaidd ac yn sicrhau bod disgyblion yn ymddwyn yn briodol ac yn dangos parch at eraill wrth symud o amgylch yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn hybu disgyblion i gadw'n heini yn effeithiol, er enghraifft trwy roi cyfle dyddiol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 redeg milltir ar fuarth yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol wedi ei chynllunio'n fanwl trwy'r ysgol. Mae athrawon yn sicrhau bod gan blant ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cadw'n ddiogel. Er enghraifft, mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn derbyn gwersi ynglŷn â chroesi'r heol yn ddiogel, ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn derbyn gwersi effeithiol ynglŷn â defnydd diogel o'r rhyngrwyd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu am ddiwylliant Cymreig ac maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr i berfformio ar wahanol lwyfannau lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy gystadlu yn eisteddfod yr Urdd. Maent yn elwa o gyfleoedd da i ddysgu am eu cymuned leol, er enghraifft wrth ymweld ag Eglwys San Sannan, neu ddysgu am yr hyn ddigwyddodd yn yr ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r holl staff yn hybu Cymreictod yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o fudd bod yn ddwyieithog. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu medrau creadigol, er enghraifft trwy efelychu gwaith artistiaid byd-enwog mewn gwersi celf, neu trwy ysgrifennu darn o farddoniaeth am fod yn ddigartref mewn gwers iaith.

Trwy fod yn aelodau o gynghorau gwahanol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i gyfrannu at fywyd yr ysgol a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, mae'r Clwb Cyfeillion wedi sefydlu system i godi hunanddelwedd cyfoedion trwy ddosbarthu 'pensiliau positif', ac maent yn hyrwyddo ymgyrch 'diffodd y golau' trwy'r ysgol er mwyn lleihau defnydd diangen o ynni. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion lais mewn penderfyniadau sy'n cael effaith ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Mae'r ysgol wedi cael cyfnod ansefydlog o ran arweinyddiaeth a newidiadau staffio ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar gyfeiriad strategol yr ysgol ac ar ddeilliannau disgyblion. Ar hyn o bryd, mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi'n bwrpasol gan ddirprwy bennaeth ac arweinydd dysgu ac addysgu dros dro. O ganlyniad, mae arweinwyr yn dechrau arwain yn fwy effeithiol ar elfennau pwysig o'r cynllun gwella ysgol ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn ddiweddar yn ymateb yn fwy effeithiol i dargedau ar gyfer gwelliant ar frys a gytunwyd gan y consortiwm a'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r strwythur staffio yn parhau i fod yn ansefydlog yn y tymor byr ac nid yw rolau'r staff yn eglur.

Dros gyfnod o amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi cyfrannu'n ddigon effeithiol at osod cyfeiriad strategol yr ysgol a thuag at wella ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau. Yn ddiweddar, mae'r corff wedi cydweithio'n briodol gyda swyddogion yr awdurdod lleol er mwyn dechrau dwyn yr ysgol i gyfrif ac i sefydlu strwythur staffio dros dro ar gyfer yr ysgol. Mae'r cadeirydd a benodwyd yn ddiweddar yn dechrau cynnig arweinyddiaeth glir i'r corff. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff hyd yn hyn yn cyflawni eu rôl yn ddigon cadarn nac yn cyfrannu'n ddigonol at drefniadau hunanwerthuso'r ysgol.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n dda gyda swyddogion yr awdurdod a'r consortiwm yn ogystal â phenaethiaid eraill i weithredu targedau'r cynllun gwella. Mae'r dirprwy bennaeth a'r arweinydd dysgu ac addysgu yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn fwy effeithiol erbyn hyn. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion, er enghraifft trwy ddechrau cysoni dulliau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar iawn, mae

arweinwyr wedi sefydlu strwythur hunanwerthuso perthnasol sy'n cynnwys arsylwi ar wersi a chraffu ar waith ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael ei weithredu'n llawn gan holl arweinwyr yr ysgol hyd yn hyn, ac maent yn parhau i fod yn ddibynnol ar gefnogaeth allanol wrth werthuso gwaith yr ysgol.

Yn ddiweddar iawn, mae'r dirprwy bennaeth a'r arweinydd dysgu ac addysgu wedi dechrau sefydlu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn dechrau cynnig cyfleoedd buddiol iddynt gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol trwy ymweld ag ysgolion eraill a mynychu hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi gweithredu trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon trylwyr ar gyfer y staff, gan gynnwys arweinwyr, dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn wedi amharu ar allu'r staff i ddatblygu eu hunain trwy weithredu ar dargedau personol ac ymgymryd â hyfforddiant perthnasol. Yn ogystal, mae'r diffygion yn y trefniadau hyn wedi hepgor arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, i fesur llwyddiant staff yn erbyn targedau blaenorol.

Mae arweinwyr wedi sicrhau lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r cwricwlwm ac maent yn defnyddio'r adnoddau'n effeithlon, ar y cyfan. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n briodol â'i blaenoriaethau ysgol ar gyfer gwelliant ac maent yn gwneud defnydd addas o grantiau. Enghraifft benodol o hyn yw defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i gyflogi cymorthyddion sy'n cynnig cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion o ran eu lles.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2019